



CONWYIFANC.COM

E: GWASANAETHIEUENCTID@CONWY.GOV.UK

FF: 01492 575037

TWITTER.COM/GICONWYYS

MEDRAU BYW

# STEM CWEST CONWY

1-2 AWST 2017



11+, Ymunwch â ni yng Ngholeg Llandrillo am ddeuddydd o ddarganfod gyda'n "solardome", "ymchwiliadau safle trosedd", "ystafell ddianc", gweithdai "roboteg Lego", "deunyddiau deallus" a llawer llawer mwy...

Ar ddiwedd diwrnod un, bydd sioe ysblennydd diweddglo rhew sych "I wasn't expecting that!".

Archebwch eich lle yn:

[www.GICYS.Eventbrite.com](http://www.GICYS.Eventbrite.com)



FACEBOOK.COM/GICONWYYS



# RHAGLEN:

Yn ychwanegol at y canlynol, pob dydd bydd gweithgareddau Techniquet a heriau Lego. Bydd y sesiynau'n cael eu rhedeg o 10am-3pm ac maent ar gael ar gyfer pobl ifanc 11+ oed.

DYDD MAWRTH <sup>(1<sup>af</sup>)</sup>	DYDD MERCHER <sup>(2<sup>il</sup>)</sup>
<p><b>Science2u:</b> <b>Smart Materials</b> Mae'r gweithdy hwn yn eich galluogi i ddod wyneb yn wyneb â deunyddiau modern eithaf anhygoel. Cewch weld cemeg yn eich poced; papur sy'n ymateb i wres, ymbarél sy'n newid lliw ac fe gewch chi hyd yn oed greu cemeg i fynd adref efo chi!</p>	<p><b>Digwyddiad Gêm Dianc - Cell Panig</b> Rydych wedi eich carcharu ar gam am drosedd na wnaethoch ei chyflawni. Mae'r llywodraeth yn treialu cyffur newydd, rydych wedi darllen erthyglau yn y papurau yn disgrifio'r sgîl-effeithiau erchyll! Mae angen i chi ddod o hyd i'r cyffur a chanfod y gwrthwennwyn er mwyn dianc, ond nid yw amser ar eich ochr, mae'r rownd feddyginiaeth bore ar fin dechrau....</p>
<p><b>I Wasn't Expecting That! - diwedd glo rhew sych</b> Dyma sioe fywiog sy'n defnyddio arddangosiadau gwyddonol i greu cymysgedd wych o gemeg newid lliw, rhew sych, tân a fflamau. Deffwrch ein gwyddoniaeth gysglyd, synnwch wrth weld yr hylifau'n newid lliw, mentwrch i ddarganfod ein peli jeli sy'n diflannu. Digon o gyfleoedd i roi cynnig arni a hyd yn oed ambell syniad i chi roi cynnig arnynt gartref.</p>	
<p><b>Planetariwm - Techniquet Glyndŵr</b> (1<sup>af</sup> ac 2<sup>il</sup>) Ewch ar daith trwy'r bydysawd ar ein planetariwm aer, gan alw heibio'r Haul, y Lleuad, y planedau a'r sêr ar y ffordd!</p>	
<p><b>Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol – sesiwn Ymchwiliad Safle Trosedd</b> Mae llofruddiaeth wedi digwydd ac rydym angen eich help i'w datrys... Mae corff (Mr Glas) wedi ei ganfod mewn labordy, a allwch adnabod y feddyginiaeth ddirgel a ddarganfuwyd yn ei boced...</p>	
<p><b>Gweithdy Roboteg Lego</b> Gweithio mewn paru i addasu robot Mindstorms LEGO, ac yna cystadlu mewn cystadleuaeth bowlio deg.</p>	

Mae sesiynau sydd wedi'u marcio gyda “🍌” yn cael eu rhedeg yn ddwyieithog neu ar gael yn Gymraeg ar gais.

I archebu eich lle ewch i: [www.gicys.eventbrite.com](http://www.gicys.eventbrite.com). Am ragor o wybodaeth hoffwch ein tudalen [www.facebook.com/GIConwyYS](http://www.facebook.com/GIConwyYS) neu cysylltwch â: [gwasanaethieuencid@conwy.gov.uk](mailto:gwasanaethieuencid@conwy.gov.uk).